WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol – **Cyngor Sir Penfro**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1236A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Penfro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall fel unigolion, nac yng nghyswllt unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith hwn yn cynnwys Ian Phillips, Alison Lewis a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer Gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn gweithredu gwell trefniadau llywodraethu a rheoli ac fe ddylai hynny roi mwy o sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu, er bod y trefniadau mewn rhai meysydd angen eu cryfhau ymhellach 6

Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn helpu i esbonio trefniadau diogelu'r Cyngor, ond mae angen gweithredu i wella'r gweithdrefnau a'r drefn lywodraethu mewn rhai meysydd allweddol 6

Mae gan bolisi diogelu corfforaethol newydd y Cyngor, ar ôl ei weithredu, y potensial i gryfhau ei drefniadau ar gyfer diogelu, ond mae angen mwy o eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r trefniadau diogelu a chraffu arnynt 6

Er bod diogelu wedi'i gynnwys fel un o'r risgiau ar gofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor, gwan yw'r trefniadau ar gyfer canfod risgiau diogelu yng nghofrestri risg gwasanaethau 8

Mae systemau'r Cyngor ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel yn rhoi rhyw gymaint o sicrwydd ond gellir eu hategu drwy ffurfioli'r broses asesu risg ar gyfer archwiliadau'r GDG a chadw un cofnod recriwtio canolog ar gyfer yr holl staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr 8

Mae nifer o gryfderau i'w gweld yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer hyfforddiant diogelu, ond gan nad oes system gofnodi gadarn i'w chael, ni all fod yn sicr bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol 9

Er bod ymarferion recriwtio diogel yn cael eu hystyried fel rhan o broses gaffael y Cyngor, gellid cryfhau'r broses rheoli contractau ar gyfer y trefniadau diogelu 10

Mae'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r wybodaeth am ddiogelu yn rheolaidd ond mae'n bosibl y gallai elwa o sefydlu mesurau perfformiad penodol ar gyfer y Cyngor i roi mwy o sicrwydd 11

Atodiadau

Atodiad 1 – Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Sir Penfro yn erbyn yr argymhellion a geir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru (Gorffennaf 2015) 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth wnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom adolygu trefniadau corfforaethol Cyngor Sir Penfro ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Er bod rhai trefniadau llywodraethu penodol ar gyfer diogelu yn gweithredu'n rhanbarthol (yn yr ardal hon drwy gyfrwng Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru) roedd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol y Cyngor ei hun.

2 Cynhaliom yr adolygiad hwn i geisio sicrhad bod gan y Cyngor drefniadau diogelu corfforaethol effeithiol ar waith. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau ein hadroddiad yn 2014 i drefniadau'r Cyngor i gefnogi trefniadau diogelu plant[1]. Fe wnaethom hefyd roi ystyriaeth i'r cynnydd a wnaeth y Cyngor i weithredu'r argymhellion a geir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru** (Gorffennaf 2015)[2].

3 Cynhaliom yr adolygiad yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2018.

### Beth wnaethom ei ganfod

4 Nod ein hadolygiad fydd ceisio ateb y cwestiwn, 'A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu?'

5 Yn gyffredinol, canfuom: Fod y Cyngor yn gweithredu gwell trefniadau llywodraethu a rheoli ac y dylai hynny roi mwy o sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu, er bod y trefniadau mewn rhai meysydd angen eu cryfhau ymhellach. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y polisi diogelu corfforaethol newydd yn helpu i esbonio trefniadau diogelu'r Cyngor, ond bod angen gweithredu i wella'r gweithdrefnau a'r drefn lywodraethu mewn rhai meysydd allweddol
  - mae gan bolisi diogelu corfforaethol newydd y Cyngor, ar ôl ei weithredu, y potensial i gryfhau ei drefniadau ar gyfer diogelu, ond bod angen mwy o eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r trefniadau diogelu a chraffu arnynt;
  - er bod diogelu wedi'i gynnwys fel un o'r risgiau ar gofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor, gwan yw'r trefniadau ar gyfer canfod risgiau diogelu yng nghofrestri risg gwasanaethau

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol ar gyfer Cefnogi Dulliau Diogelu Plant – Cyngor Sir Penfro**, Swyddfa Archwilio Cymru, Rhagfyr 2014.

[2] Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru http://www.archwilio.cymru/cy

- mae systemau'r Cyngor ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel yn rhoi rhyw gymaint o sicrwydd ond gellid eu hategu drwy ffurfioli'r broses asesu risg ar gyfer archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a chadw un cofnod recriwtio canolog ar gyfer yr holl staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr;
- mae nifer o gryfderau i'w gweld yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer hyfforddiant diogelu, ond gan nad oes system gofnodi gadarn i'w chael, ni all fod yn sicr bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol;
- er bod ymarferion recriwtio diogel yn cael eu hystyried fel rhan o broses gaffael y Cyngor, gellid cryfhau'r broses rheoli contractau ar gyfer y trefniadau diogelu

- mae'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r wybodaeth am ddiogelu yn rheolaidd ond mae'n bosibl y gallai elwa o sefydlu mesurau perfformiad penodol ar gyfer y Cyngor i roi mwy o sicrwydd

# Cynigion ar gyfer Gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn cynnwys y cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer Gwella** | |
|---|---|
| C1 | Mae angen i'r Cyngor esbonio yn ei Bolisi Diogelu y trefniadau craffu ar gyfer diogelu. |
| C2 | Dylai'r Cyngor esbonio rolau a chyfrifoldebau'r Aelod Arweiniol a'r Aelod Eiriolwr dros Ddiogelu yn y polisi a datgan hynny. |
| C3 | Mae angen i'r Cyngor ennyn cyhoeddusrwydd i'r polisi diogelu corfforaethol newydd i sicrhau bod staff, cynghorwyr a rhanddeiliaid ehangach yn ymwybodol ohono a sut y dylid ei weithredu. |
| C4 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod risgiau diogelu yn cael eu hystyried yn briodol fel rhan o'r symudiad at sefydlu cofrestri risg ar lefel cyfarwyddiaethau. |
| C5 | Dylai'r Cyngor gofnodi'n ffurfiol a chadw, ar y system adnoddau dynol gorfforaethol, yr asesiad risg a gynhelir wrth benderfynu a oes gofyn gwneud archwiliad GDG ar gyfer rôl benodol (ac ar ba lefel). |
| C6 | Dylai'r Cyngor gadw'r holl gofnodion am wirfoddolwyr ar y system adnoddau dynol gorfforaethol i sicrhau bod ganddo un cofnod recriwtio canolog. |
| C7 | Dylai'r Cyngor werthuso a fyddai llunio polisi gwirfoddoli corfforaethol yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu. |

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C8 | Dylai'r Cyngor sefydlu system gadarn fel y gall fod yn sicr bod pawb a ddylai fod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu wedi ei gael[3]. |
| C9 | Dylai'r Cyngor adolygu'r arferion caffael i sicrhau bod materion diogelu yn cael eu hystyried a'u rheoli'n drylwyr pan fo trydydd partïon yn cyflenwi gwasanaethau ar ran y Cyngor. |
| C10 | Dylai'r Cyngor benderfynu a fyddai sefydlu mesurau perfformiad penodol ar gyfer y Cyngor o gymorth i'r trefniadau craffu yn eu rôl ac yn rhoi mwy o sicrwydd ar effeithiolrwydd polisi diogelu newydd y Cyngor. |

[3] Cyflwynwyd argymhelliad tebyg i gynghorau yn flaenorol yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru** (Gorffennaf 2015). Wedi'i gynnwys fel rhan o Argymhelliad 4 roedd, 'creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr'.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn gweithredu gwell trefniadau llywodraethu a rheoli ac fe ddylai hynny roi mwy o sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu, er bod y trefniadau mewn rhai meysydd angen eu cryfhau ymhellach

## Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn helpu i esbonio trefniadau diogelu'r Cyngor, ond mae angen gweithredu i wella'r gweithdrefnau a'r drefn lywodraethu mewn rhai meysydd allweddol

### Mae gan bolisi diogelu corfforaethol newydd y Cyngor, ar ôl ei weithredu, y potensial i gryfhau ei drefniadau ar gyfer diogelu, ond bod angen mwy o eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r trefniadau diogelu a chraffu arnynt

6 I ddod i'r casgliad hwn canfuom:

- mai ychydig o amlygrwydd a gawsai polisi diogelu corfforaethol blaenorol y Cyngor, ac mai cyfyngedig oedd y wybodaeth amdano. Cymeradwyodd y Cabinet bolisi diogelu corfforaethol newydd ar 5 Tachwedd 2018 ac mae wrthi'n cael ei gweithredu. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y polisi newydd yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol fel bod staff, cynghorwyr a rhanddeiliaid ehangach yn ymwybodol o'r polisi a sut y dylid ei weithredu.
- bod gan y polisi newydd y potensial i gryfhau'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu Y dylai cynlluniau newydd megis y Grŵp Diogelu'r Awdurdod Cyfan a phenodi Arweinyddion Diogelu Cyfarwyddiaethau helpu i sicrhau gwell perchnogaeth gorfforaethol dros faterion diogelu.
- bod y polisi diogelu corfforaethol newydd yn datgan yn glir rolau a chyfrifoldebau swyddogion o safbwynt materion diogelu Mae'r polisi newydd yn rhestru'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol fel hyrwyddwr diogelu. Fodd bynnag, ers mabwysiadu'r polisi mae'r Cyngor wedi penderfynu penodi'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol fel yr aelod arweiniol dros ddiogelu a chynghorydd gwahanol i fod yn hyrwyddwr diogelu. Mae angen i'r polisi gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac i egluro'r gwahaniaethau rhwng y priod rolau hyn. Byddai o fudd cael mwy o gyhoeddusrwydd am y gwahanol rolau a'r cyfrifoldebau dros ddiogelu, er enghraifft, cynnwys y wybodaeth hon ar wefan y Cyngor.

- y gellid cryfhau'r polisi ymhellach drwy gyfeirio ynddo at bolisïau corfforaethol eraill sy'n berthnasol i ddiogelu, megis:
  - recriwtio diogel – y polisi a'r ymarfer o ran defnyddio gwybodaeth mewn cofnodion troseddol wrth ddethol gweithwyr;
  - fetio gwirfoddolwyr;
  - y polisi caffael; a'r
  - polisi chwythu'r chwiban.
- y gallai'r polisi hefyd fod yn gliriach ynglŷn ag a yw'r Fframwaith Archwilio Diogelu ar gyfer Gwerthuso (SAFE), y cyfeirir ato yn Atodiad 5 o'r polisi, yn berthnasol i gyfarwyddiaethau mewnol a sefydliadau allanol fel ei gilydd. Ar hyn o bryd, mae'r geiriad yn amwys.
- bod angen i'r trefniadau craffu ar gyfer diogelu fod yn gliriach. Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn datgan y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau yn craffu ar adroddiad blynyddol ar gydymffurfio â'r polisi diogelu. Fodd bynnag, yng nghyfansoddiad y Cyngor, mae diogelu wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, ac mae diogelu ym maes addysg wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu. Mae angen i'r Cyngor esbonio'r trefniadau craffu ar gyfer diogelu. Gallai trefniadau craffu aneglur arwain at fod materion diogelu yn cael eu diystyru gan y rheini sydd â'r cyfrifoldeb drostynt.

## Er bod diogelu wedi'i gynnwys fel un o'r risgiau ar gofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor, gwan yw'r trefniadau ar gyfer canfod risgiau diogelu yng nghofrestri risg gwasanaethau

7 I ddod i'r casgliad hwn canfuom:

- fod diogelu wedi'i restru fel un o'r risgiau yng nghofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, nis rhestrir fel un o'r risgiau yng nghofrestri risgiau'r gwasanaethau yr edrychom arnynt. Yn fwyaf nodedig, nid yw'n ymddangos yng nghofrestr risgiau Gwasanaethau i Oedolion ac nis crybwyllir yn benodol yng nghofrestr risgiau'r Gwasanaethau i Blant.
- ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio gytuno ag argymhelliad oddi wrth y Pennaeth Archwilio Mewnol, fod y Cyngor yn bwriadu symud at system o gofrestri risgiau ar lefel cyfarwyddiaethau. Mae i'r model hwn y potensial i gryfhau'r trefniadau rheoli risg drwy ddwyn cyfarwyddiaethau'n gliriach i gyfrif am reoli eu risgiau. Bwriedir cwblhau'r cofrestri risgiau newydd ar lefel cyfarwyddiaethau erbyn diwedd Rhagfyr 2018, gyda'r adroddiad cyntaf yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2019.

## Mae systemau'r Cyngor ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel yn rhoi rhyw gymaint o sicrwydd ond gellir eu hategu drwy ffurfioli'r broses asesu risg ar gyfer archwiliadau GDG a chadw un cofnod recriwtio canolog ar gyfer yr holl staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr

8 I ddod i'r casgliad hwn canfuom:

- fod gan y Cyngor bolisi recriwtio diogel sy'n datgan yn glir ei drefniadau recriwtio. Dylai'r polisi hwn fod wedi cael ei adolygu erbyn mis Medi 2016, ond nid yw wedi cael ei adolygu hyd yma.
- bod gan y Cyngor drefniadau cadarn yn gyffredinol ar gyfer archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Mae ganddo system adnoddau dynol gorfforaethol sy'n cofnodi'r staff sydd angen archwiliadau GDG a lefel yr archwiliad GDG sy'n ofynnol. Mae'n cofnodi'r dyddiad y daeth archwiliad y GDG i law, a'r dyddiad adnewyddu. Mae gan y tîm adnoddau dynol canolog drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau y gofynnir i aelodau staff am adnewyddu'r archwiliadau mewn digon o amser. Os na chaiff yr archwiliad GDG ei adnewyddu mewn pryd mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gan gynnwys, os oes angen, eu hatal dros dro nes daw'r dystysgrif newydd i law.
- os daw archwiliad GDG yn ôl ac nid yw'n glir, fod gan y Cyngor broses asesu risg ffurfiol i ystyried hyn ac yna gwneud penderfyniad ynglŷn ag addasrwydd yr ymgeisydd/gweithiwr ar gyfer y rôl. Mae rheolwr y gwasanaeth a'r adran adnoddau dynol yn rhan o'r broses hon a rhaid cael cymeradwyaeth briodol ar lefel cyfarwyddwr.
- bod y Cyngor yn ystyried, cyn recriwtio, a oes angen archwiliad GDG ar gyfer rôl waith a pha lefel o archwiliad sy'n ofynnol. Penderfynir hyn mewn sgwrs rhwng y rheolwr gwasanaeth perthnasol a'r swyddog adnoddau dynol. Gellid gwella'r broses hon drwy:
  - fod swyddogion yn cwblhau asesiad risg ysgrifenedig, gan gofnodi'r rhesymau am y penderfyniad ynglŷn â lefel yr archwiliad GDG sy'n ofynnol, ac yn cadw'r wybodaeth hon ar ffeil adnoddau dynol ganolog; a
  - thrwy gofnodi mewn swydd-ddisgrifiadau unigol a yw archwiliadau GDG yn ofynnol ac ar ba lefel. Mae'r adran adnoddau dynol eisoes wedi nodi hwn fel un maes i'w wella, ac mae'n bwriadu gweithredu ar hyn i'r dyfodol.
- bod y Cyngor yn gweithredu'r un safonau ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr yn ddiogel ag a wna ar gyfer gweithwyr a bod polisi corfforaethol i'w gael ar fetio gwirfoddolwyr. Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth am wirfoddolwyr yn cael ei dal ar y system adnoddau dynol gorfforaethol, mae eithriadau i'w cael. Ni chaiff llywodraethwyr eu rhestru ar hyn o bryd ond disgwylir iddynt fod ar y system erbyn Ebrill 2019. Ni chaiff gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y

gwasanaeth Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth eu cofnodi ar y system adnoddau dynol gorfforaethol. Caiff y cofnodion hyn (ac archwiliadau GDG perthnasol) eu cadw'n lleol yn adran y gwasanaeth. Er mwyn cysondeb, cyflawnder, ac i sicrhau trosolwg corfforaethol priodol ar wybodaeth ddiogelu ac i leihau'r risg, dylai'r Cyngor sicrhau y ceir un cofnod a ddelir yn ganolog ar gyfer pawb sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli i'r Cyngor.

## Mae nifer o gryfderau i'w gweld yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer hyfforddiant diogelu, ond gan nad oes system gofnodi gadarn i'w chael, ni all fod yn sicr bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol

9 I ddod i'r casgliad hwn canfuom:

- fod hyfforddiant diogelu yn orfodol i'r holl staff[4] a'i fod yn un o'r gofynion fel rhan o'r broses gynefino. Yn ein gwaith maes clywsom adborth positif ar yr hyfforddiant haen 1. Mae angen i staff ddilyn hyfforddiant haen 1 bob tair blynedd. Fodd bynnag, ni all y Cyngor fod yn sicr bod pawb a ddylai fod wedi cael yr hyfforddiant wedi'i gael. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod diffyg system gorfforaethol gadarn i gofnodi'r hyfforddiant y mae staff yn ei gael yn un gwendid y mae angen rhoi sylw iddo.
- bod hyfforddiant diogelu haen 2 a haen 3 yn orfodol ar gyfer rhai swyddi penodol ac y ceir cadarnhad bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau drwy ddatblygu proffesiynol parhaus/gwerthusiadau. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r swydd-ddisgrifiadau'n cynnwys pa lefel o hyfforddiant diogelu sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd er mwyn gallu cadw cofnod corfforaethol o'r gofynion hyfforddiant.
- bod hyfforddiant o safbwynt Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 hefyd yn orfodol i'r holl staff a bod y niferoedd sy'n cyflawni hwn yn y Cyngor yn uchel o'i gymharu â'r sefyllfa ar draws Cymru.
- bod niferoedd da o gynghorwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu, gyda 52 allan o'r 60 aelod yn cwblhau'r hyfforddiant yn 2017-18.
- bod y polisi diogelu corfforaethol newydd yn rhoi cyfrifoldeb ar reolwyr adrannol i sicrhau bod diogelu yn rhan o hyfforddiant cynefino pob gwirfoddolwr a bod yr hyfforddiant a gyflenwir yn gymesur â'r rôl. Mae hyfforddiant haen 1 yn orfodol i wirfoddolwyr yn y Polisi Gwirfoddoli ar gyfer Gwasanaethau Diwylliannol lle ceir un gwirfoddolwr fel yr unig gyswllt â'r cyhoedd. Gallai llunio polisi gwirfoddoli ar gyfer y Cyngor cyfan fod yn gyfle i

[4] Mae hyfforddiant diogelu wedi'i rannu'n dair haen (lefel). Mae'r Cyngor yn pennu pa haen sy'n ofynnol yn ddibynnol ar natur y swydd. Mae hyfforddiant Haen 1 yn orfodol i'r holl staff.

roi eglurhad pellach ynglŷn ag a oes angen i bob gwirfoddolwr gwblhau hyfforddiant diogelu.

- bod y Cyngor wedi bod yn rhagweithiol yn trefnu hyfforddiant diogelu ehangach i wirfoddolwyr, er enghraifft, cynhaliwyd hyfforddiant â gyrwyr tacsis a chynhelir sesiynau maes o law â gweithwyr yn economi'r nos.

## Er bod ymarferion recriwtio diogel yn cael eu hystyried fel rhan o broses gaffael y Cyngor, gellid cryfhau'r broses rheoli contractau ar gyfer y trefniadau diogelu

10 I ddod i'r casgliad hwn canfuom:

- fod y Cyngor yn cyflenwi rhai o'i wasanaethau drwy drefniadau contractio a chomisiynu. Mae'r Cyngor yn defnyddio 'ffurflen cofnodi tendrau' sy'n gweithredu fel rhestr gyfeirio yn y broses gaffael. Er bod y ffurflen cofnodi tendrau bresennol yn gofyn a yw archwiliadau GDG yn ofynnol, gallai'r Cyngor gynnwys cwestiwn ehangach o safbwynt ystyriaethau/goblygiadau diogelu. Er enghraifft, gallai gynnwys yr angen am hyfforddiant staff neu archwiliadau ychwanegol i gerbydau a ddefnyddir i gludo defnyddwyr gwasanaethau.
- lle bo'r cytundeb lefel gwasanaeth/contract yn nodi materion diogelu, y dylai'r broses rheoli contractau barhaus gynnwys archwiliadau digonol. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i sicrhau ei hun bod y trefniadau diogelu ar gyfer trydydd partïon yn ddigonol, megis a gafwyd geirdaon ac archwiliadau GDG. Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer rheoli contractau drwy sicrhau y ceir rheolwyr contractau diffiniedig ar gyfer pob contract a drwy roi hyfforddiant rheoli contractau i'r swyddogion hynny. Fodd bynnag, nid yw dal yn glir a yw'r prosesau hynny yn darparu i'r Cyngor y sicrwydd y mae ei angen. Dylai'r Cyngor adolygu ei arferion caffael i sicrhau bod materion diogelu yn cael eu hystyried a'u rheoli'n drylwyr pan fo trydydd partïon yn cyflenwi gwasanaethau ar ran y Cyngor

# Mae'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r wybodaeth am ddiogelu yn rheolaidd ond mae'n bosibl y gallai elwa o sefydlu mesurau perfformiad penodol ar gyfer y Cyngor i roi mwy o sicrwydd

11 I ddod i'r casgliad hwn canfuom:

- fod y Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r wybodaeth ddiogelu fel a ganlyn:
  - mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn ystyried adroddiad gwybodaeth ar berfformiad diogelu bob chwarter;

- mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cael adroddiad perfformiad ar ddiogelu ddwywaith y flwyddyn;
  - mae adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd gerbron y Cabinet;
  - mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu ar faterion diogelu yn flynyddol; ac
  - mae'r adran Archwilio Mewnol yn adrodd bod materion diogelu yn cael eu hystyried yn yr adolygiadau y mae'n eu cynnal. Maent hefyd yn llunio adroddiadau rheolaidd ar faterion diogelu penodol.
- bod yr adroddiad chwarterol ar berfformiad a gyflwynir gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn cynnwys mesurau perfformiad rhanbarthol. Dylai'r Cyngor ystyried a allai mesurau perfformiad eraill a luniwyd yn benodol ar gyfer y Cyngor helpu i gryfhau'r trefniadau craffu a throsolygu yn y maes hwn. Er enghraifft, gallai'r Cyngor ddefnyddio'r meysydd a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**, a oedd yn cynnwys:
  - casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;
  - data perfformiad ar lefel gwasanaethau;
  - data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, ac archwiliadau recriwtio'r GDG; a
  - pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynir o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor.
- y byddai'r Cyngor hefyd o bosibl yn dymuno ystyried sefydlu mesurau perfformiad i'w helpu i asesu effeithiolrwydd ac effaith ei bolisi diogelu corfforaethol newydd.
- bod y Cyngor yn defnyddio dysgu i helpu i wella ei drefniadau diogelu gan gynnwys: cynnal adolygiadau o ymarfer, cynnal diwyddiadau dysgu a sefydlu dull gweithredu'r cyllun Signs of Safety[5].

[5] Dan y cynllun Signs of Safety, a datblygwyd yn Awstralia yn y 1990au, mae gwaith achosion amddiffyn plant yn canolbwyntio ar y cryfderau. Cyd-sefydlwyr model Signs of Safety oedd Steve Edwards ac Andrew Turnell. Rhoddir y pwyslais ar weithio â theuluoedd, a'u helpu i wneud newididau positif.

# Atodiad 1

## Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Sir Penfro yn erbyn yr argymhellion a geir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru (Gorffennaf 2015)

Arddangosyn 2: cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol

| Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Sir Penfro yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol |
|---|---|---|
| **A1** | Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | Penododd y cyngor uwch aelod arweiniol ac aelod arweiniol ar gyfer diogelu. Mae'r Cyngor wedi cyflawni'r trydydd pwynt bwled yn rhannol, fodd bynnag, mae lle i wella yn y maes hwn (gweler paragraff 7 o'r adroddiad hwn a'r cynigion ar gyfer gwella C2 ac C3). |
| **A2** | Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | Mae'r Cyngor wedi gweithredu ar hyn. Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Corfforaethol ym mis Tachwedd 2018. |
| **A3** | Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a'r angen i gydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn berthnasol i bob gwasanaeth sy'n golygu cyswllt â phlant.<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDG; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Mae systemau'r Cyngor ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel yn rhoi rhyw gymaint o sicrwydd ond gellir eu hategu drwy ffurfioli'r broses asesu risg ar gyfer archwiliadau'r GDG a chadw un cofnod recriwtio canolog ar gyfer yr holl staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr (gweler paragraffau 9 ac 11 o'r adroddiad hwn a chynigion ar gyfer gwella 5, 6, 7 a 9). |

| Argymhellion o’r adroddiad cenedlaethol | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Sir Penfro yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol |
|---|---|
| **A4** Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a’i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â’r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau’r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy’n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Mae nifer o gryfderau i’w gweld yn nhrefniadau’r Cyngor ar gyfer hyfforddiant diogelu, ond gan nad oes system gofnodi gadarn i’w chael, ni all fod yn sicr bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol;<br>(gweler y sylwadau ym mharagraff 10 ac 11 o’r adroddiad hwn a chynigion ar gyfer gwella C8 ac C9). |
| **A6**[6] Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â’r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad ar lefel gwasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDG; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynir o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu’r cyngor. | Mae’r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso’r wybodaeth am ddiogelu yn rheolaidd ond mae’n bosibl y gallai elwa o sefydlu mesurau perfformiad penodol ar gyfer y Cyngor i roi mwy o sicrwydd (gweler y sylwadau ym mharagraffau 7 a 12 or adroddiad hwn a chynigion ar gyfer gwella C1 ac C10) |
| **A7** Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu’r cyngor. | Mae’r adran Archwilio Mewnol yn adrodd bod materion diogelu yn cael eu hystyried yn yr adolygiadau y mae’n eu cynnal. Mae hefyd yn llunio adroddiadau rheolaidd ar faterion diogelu penodol. |
| **A8** Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy’n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | Er bod diogelu wedi’i gynnwys fel un o’r risgiau ar gofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor, gwan yw’r trefniadau ar gyfer canfod risgiau diogelu yng nghofrestri risg gwasanaethau (gweler y sylwadau ym mharagraff 8 o’r adroddiad hwn a chynnig ar gyfer gwella C4. |

[6] Roedd Argymhelliad 5 wedi’i gyfeirio at Lywodraeth Cymru yn hytrach na chynghorau felly nis cynhwysir yn y rhestr uchod.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru